| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Cabinet** |
| **DYDDIAD** | **14 Chwefror 2017** |
| **TEITL** | **Cynllun y Cyngor 2017/18** |
| **PWRPAS** | **Sicrhau cymeradwyaeth y Cabinet i'r cynllun** |
| **AWDUR** | **Y Cynghorydd Dyfed Edwards** |
| **SWYDDOG CYSWLLT** | **Hawis Jones, Rheolwr Cynllunio Strategol a Pherfformiad** |

**1. Y penderfyniad a geisir**

Cymeradwyaeth y Cabinet i Gynllun Strategol 2017/18 i'w gyflwyno i'r Cyngor ar 2 Mawrth 2017.

**2. Cyflwyniad**

2.1 Cafodd y cynllun strategol gwreiddiol ar gyfer 2013-17 ei fabwysiadu gan y Cyngor ym mis Mai 2013. Fe fydd cynllun eleni, sef 2017/18 yn ymestyniad blwyddyn o'r cynllun hwnnw.

2.2 Wrth adolygu'r cynllun eleni, rydym wedi edrych ar lle rydym wedi cyrraedd ar ôl pedair blynedd o weithredu Cynllun Strategol 2013-17 ac ystyried beth sydd angen ei gyflawni yn 2017/18. Yn ogystal â bod yn ymestyniad o'r cynllun blaenorol, fe fydd Cynllun 2017/18 hefyd yn pontio'r cyfnod rhwng Cynllun Strategol Cyngor Gwynedd 2013-17 a'r cynllun newydd a fydd yn cael ei baratoi a'i fabwysiadu gan y Cyngor a fydd yn cael ei ethol fis Mai 2017.

2.3 Er mwyn adolygu'n iawn, roedd angen inni ystyried beth oedd wedi newid ers y llynedd, gan edrych ar y materion cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol sydd yn dylanwadu ar y Cyngor ac sy'n debygol o ddylanwadu ar bobl Gwynedd i'r dyfodol. Hefyd, fe ddaeth Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn weithredol fis Ebrill 2016, ac fe fydd y cynllun hwn yn dangos sut rydym yn newid ein ffordd o weithio i adlewyrchu hyn. Mae ein Datganiad Llesiant a'n Hamcanion Llesiant wedi eu nodi yn y cynllun.

2.4 Mae'r cynllun wedi ei baratoi i gwrdd â gofynion y ddeddf, ond bydd yn cael ei gyhoeddi cyn cyhoeddi Asesiad Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn ac felly nid yw'n ymgorffori canlyniadau'r asesiad hwnnw. Erbyn y flwyddyn nesaf, byddwn wedi ystyried yr Asesiad Llesiant, a bydd disgwyl i'w ganlynidau ddylanwadu ar gynnwys y cynllun o 2018/19 ymlaen.

2.5 Mae'r cynllun wedi ei baratoi mewn cyfnod o newid, ac mae'n dilyn cymeradwyo cyfres o doriadau gwerth £4.9miliwn a oedd yn seiliedig ar ymateb y cyhoedd a busnesau drwy ymgynghoriad Her Gwynedd. Rydym wedi bod yn gweithio ar wireddu'r toriadau yn 2016/17 a bydd eraill i'w gwireddu yn 2017/18.

**3. Ystyriaethau perthnasol**

Nodir isod y materion sydd angen i aelodau'r Cabinet eu hystyried cyn cymeradwyo'r cynllun:

**3.1 Prosiectau wedi dod i ben**

Mae'r prosiectau canlynol (neu'r Cynlluniau i Wella fel y'u gelwir yn y cynllun hwn) wedi dod i ben:

- **Ysgol Hafod Lon** – gwaith wedi ei gwblhau
- **Ail-strwythuro Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant** – gwaith wedi ei gwblhau
- **Darpariaeth Fewnol** – gwaith wedi ei gwblhau
- **Gweithredu Cyfundrefn Berfformiad** – gwaith wedi ei gwblhau
- **Gwella mynediad pobl y sir i waith ac ymateb i rwystrau** – gwaith yn parhau fel rhan o gynllun **Cydymdrechu yn erbyn Tlodi.**

**3.2 Prosiectau newydd**

Mae **Prosiect Bangor** yn ymddangos yn newydd yng nghynlluniau i wella Plant a Phobl Ifanc.

**3.3 Adnoddau**

Mae rhai cynlluniau i wella angen adnoddau ychwanegol er mwyn cyflawni eu hymrwymiadau. Y rhain yw:

| **Cynllun i Wella (Prosiectau)** | **Ymwrwymiad adnodd (£)** |
|---|---|
| Rhaglen Ymyrraeth Gynnar / Ataliol ar gyfer grwpiau o blant a phobl ifanc bregus Gwynedd | 40,000 |
| Pobl ifanc yn defnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol | 40,000 |
| Swyddi gwerth uchel ac o ansawdd | 117,000 |
| Cydymdrechu yn erbyn tlodi | 155,000 |
| Cynllun Datblygu Gwynedd Wledig | 23,000 |
| Digwyddiadau proffil uchel a strategol | 42,000 |

Cynigwn fod y rhain yn cael eu cymeradwyo yn rhan o'r cynllun, yn amodol ar gytundeb gan y Cabinet i'w hariannu, wedi iddynt ystyried sefyllfa pob prosiect yn unigol. Disgwylir i hyn ddigwydd cyn gynted ag y bo'n bosib.

**3.4 Rhesymau dros argymell y penderfyniad**

3.4.1 Mae'r hyn sydd gerbron fel cynllun drafft er sylw'r Cabinet yn adlewyrchu canlyniadau'r adolygiad, ac yn estyniad o Gynllun Strategol 2016/17. Bydd ei bwyslais yn parhau i fod ar wella gallu'r Cyngor i sicrhau'r gorau i bobl Gwynedd, a byddwn yn gwneud hynny drwy gyfrannu at gyflawni nodau llesiant

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ogystal â thrawsffurfio rhai gwasanaethau i wasanaethau y byddwn yn gallu eu cynnal i'r dyfodol.

3.4.2 Mae gofyn statudol i baratoi ac ystyried canfyddiadau asesiad o effaith o safbwynt cydraddoldeb wrth baratoi y Cynllun Strategol yn unol â gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 fel y'i gweithredir yng Nghymru. Atodir yr asesiad yn Atodiad 2. Nid yw'r asesiad yn canfod unrhyw effaith fyddai yn cyfiawnhau gwyro oddi wrth yr argymhelliad a rhagwelir elfennau fyddai ag effaith bositif.

## 4. Camau nesaf ac amserlen

O gymeradwyo'r cynllun, bwriedir ei gyflwyno i'w fabwysiadu yng nghyfarfod llawn nesaf y Cyngor ar 2 Mawrth 2017.

**Atodiadau**
**Cynllun Gwynedd 2017/18**

**Atodiad 1 -** Mesurau
**Atodiad 2 -** Asesiad Effaith Cydraddoldeb

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Prif Weithredwr:**
Fel y mae'r adroddiad yn nodi, mae edrychiad Cynllun y flwyddyn nesaf angen bod ychydig yn wahanol er mwyn cwrdd a gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ond heblaw am y materion a nodir yn yr adroddiad, parhad ydyw mewn gwirionedd o'r ymyraethau y mae'r Cyngor eisoes wedi penderfynu eu gweithredu yn y blynyddoedd a fu.

Yn dilyn ethol Cyngor newydd ym mis Mai fe fydd yna gyfle dros yr haf a'r hydref i ystyried yr hyn y bydd y Cyngor newydd yn dymuno ei gyflawni dros oes y Cyngor hwnnw, gan osod hynny allan mewn Cynllun newydd.

Dros y blynyddoedd 'rydym wedi bod yn cael trafferthion darganfod ffurf ar gyfer ein cynllun sy'n hawdd i'w ddarllen, a tydi'r adolygiad yr ydym wedi gorfod ei wneud ar gyfer 2017/18 ddim wedi helpu yn hynny o beth. 'Rydym yn ymchwilio i ddulliau gwahanol o gyflwyno'r cynllun mewn blynyddoedd i ddod i'w wneud o'n haws i'w ddarllen ac yn fwy perthnasol i'r cyhoedd, tra'n parhau i gwrdd a'n dyletswyddau cyfreithiol.

**Y Swyddog Monitro:**
Fel y nodir yn yr adroddiad fod cyd-destyn interim yng nghyflwyniad y cynllun sydd yn adlewyrchu cyfaddawd rhwng cylch etholiadol diwygiedig a gofynnion eraill sydd ar y Cyngor. Yn benodol mae gofynnion amserlen statudol ynglyn â mabwysiadu Amcanion Gwella ac hefyd i fabwysiadu Amcanion Llesiant dan Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn golygu fod angen gweithredu yn y modd yma. Paratowyd Asesiad Cydraddoldeb wrth ddatblygu'r cynllun yn unol a'r dyletswydd dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Atodir yr

asesiad yn Atodiad 2 a cymerwyd y canfyddiadau i ystyriaeth wrth lunio'r cynllun.

**Y Pennaeth Cyllid:**

Mae'n fuddiol bod y Cynllun Strategol yn cael ei gyflwyno yn yr un cylch â chyllideb 2017/18 a chynllun ariannol tymor-canol 2017/18 – 2019/20, sydd yn gyson gyda'r rhan 'Arbedion' yn y Cynllun Strategol. Rwyf wedi cydweithio gydag awdur y Cynllun Strategol ar gynnwys yr agwedd honno, ac rwy'n cadarnhau cywirdeb ei gynnwys. Ymhellach, nodaf fod yr adroddiad 'Cyllideb 2017/18' ar raglen y cyfarfod yma'n nodi "fod prif flaenoriaethau'r Cyngor (materion datblygol er mwyn gwneud gwahaniaeth) yn cael eu hariannu a'u comisiynu ar wahân [i'r adroddiad ar y gyllideb], drwy'r Cynllun Strategol." Fel dywedai'r cymal o dan y tabl yn yr adroddiad blaen, bydd y ceisiadau am arian ychwanegol un-tro (o'r Gronfa Trawsffurfio) yn amodol ar benderfyniadau dilynol gan y Cabinet.